No.

# PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr, 2021.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd G.D.D. Carroll (Cadeirydd); Cynghorydd L.O. Rowlands (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr P. Drake, Dr. I.J. Johnson, K.F. McCaffer, J. Norman, M.R. Wilson and Mr. P. Lewis (Aelod Lleygr).

Hefyd yn bresennol: S. Wyndham (Archwilio Cymru).

644 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

645. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Medi, 2021 fel cofnod cywir.

646 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

647 ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU: ADOLYGIAD O ADFYWIO CANOL Y DREF YNG NGHYMRU (CYF) –

Cyflwynwyd yr eitem ddaeth gan gyfarfod Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd 2021.

Cynhaliwyd adolygiad Archwilydd Cyffredinol Cymru o Adfywio Canol Trefi yng Nghymru rhwng mis Hydref 2020 a mis Mai 2021 gyda'r canfyddiadau wedi'u cyhoeddi ym mis Medi 2021;  Daeth yr adroddiad cenedlaethol atodedig (Atodiad A) i'r casgliad, fod ‘canol trefi wrth wraidd bywyd Cymru a gallant fod yn lleoedd bywiog a chynaliadwy ond mae mynd i'r afael â'r heriau niferus y maent yn eu hwynebu yn gofyn am benderfyniadau dewr ac arweinyddiaeth uchelgeisiol'.

Roedd yr adolygiad wedi ystyried sut mae canol trefi wedi esblygu dros y blynyddoedd, canol trefi heddiw a'r her o adfywio canol trefi yn y dyfodol, a daeth i'r casgliad:

- Fod dewisiadau polisi cenedlaethol y gorffennol, disgwyliadau newidiol defnyddwyr a datblygiadau technolegol bellach yn cael effaith andwyol ar lawer o ganol trefi Cymru;
- Roedd busnesau wedi cael cefnogaeth dda yn ystod y pandemig, ond nid oedd gan rai awdurdodau lleol y sgiliau, y capasiti na'r adnoddau er mwyn helpu i greu canol trefi cynaliadwy er gwaethaf cyllid sylweddol gan Lywodraeth Cymru.

Parhaodd canol trefi i chwarae rhan bwysig wrth wraidd bywyd Cymru, ond roedd angen i lywodraeth leol a chenedlaethol yrru agenda adfywio uchelgeisiol er mwyn helpu i greu lleoedd cynaliadwy;

Gwnaeth yr adroddiad chwe argymhelliad i lywodraeth leol ac i Lywodraeth Cymru:

- A1: Llywodraeth Cymru i adolygu Ardrethi Annomestig er mwyn sicrhau bod y system yn adlewyrchu amodau canol trefi yn well pan ddaw y gwyliau taliadau i ben ym mis Mawrth 2022.
- A2: Llywodraeth Cymru i weithio gydag awdurdodau lleol i adolygu heriau trafnidiaeth sy'n wynebu canol trefi a chytuno ar y ffordd orau o fynd i'r afael â'r rhain.
- A3: Llywodraeth Cymru i atgyfnerthu cyllid i leihau biwrocratiaeth drwy symleiddio prosesau ac amodau grant a chadw ceisiadau am wybodaeth a deunyddiau ategol cyn lleied â phosibl; symud i ffwrdd o gylchoedd cynnig blynyddol i ddyraniadau aml-flwyddyn; ac ail-gydbwyso buddsoddiad o gyfalaf i refeniw er mwyn helpu awdurdodau lleol i fynd i'r afael â phrinder gallu a sgiliau staff.
- A4: Awdurdodau lleol i gymryd camau priodol, gan ddefnyddio'r pwerau a'r adnoddau presennol sydd ar gael i sicrhau'r canlyniad gorau posibl o ran adeiladau gwag ac adfeiliedig yng nghanol trefi drwy: ddefnyddio dulliau gorfodi amgen cyn defnyddio Gorchmynion Prynu Gorfodol fel dewis olaf; integreiddio strategaethau gorfodi â strategaethau adrannol ehangach ar draws timau tai, iechyd yr amgylchedd, cynllunio ac adfywio i wneud defnydd effeithiol o sgiliau ac adnoddau presennol; a sicrhau bod capasiti a'r arbenigedd cywir i ddefnyddio'r ystod lawn o bwerau, gan gydweithio â Chynghorau eraill i sicrhau canlyniadau da.
- A5: Llywodraeth Cymru i nodi sut y mae'n bwriadu cyflawni ei hymagwedd 'Canol Trefi yn Gyntaf', ei disgwyliadau o ran partneriaid a'r camau ymarferol y bydd yn eu cymryd i wireddu'r uchelgais hwn.
- A6: Awdurdodau lleol i ddefnyddio teclyn adfywio Archwilio Cymru i hunanasesu eu dulliau presennol o nodi lle mae angen iddynt wella eu gwaith ar adfywio canol trefi.

Mewn ymateb i ganfyddiadau'r Adroddiad, roedd y Rheolwr Gyfarwyddwr a'r Pennaeth Adfywio a Chynllunio wedi datblygu cynllun gweithredu a fyddai'n cael ei ddatblygu gan y Cyngor.

Gwnaeth y Cynghorydd Dr Johnson sylwadau ar y Barri, a'r gwaith sy'n mynd rhagddo a'r gwaith sydd ei angen o hyd. Nododd fod cynllun gwella ar waith yr oedd angen ei ariannu er mwyn mynd i'r afael â'r materion allweddol. Ychwanegodd, er mwyn gwneud Heol Holltwn a’r Stryd Fawr yn fwy llwyddiannus, fod angen strategaeth nid yn unig yn ymwneud â manwerthu ond hefyd yn canolbwyntio ar yr ardaloedd hynny fel llefydd i fyw ynddynt. Cyfeiriodd y Cynghorydd Dr Johnson at yr uwchgynhadledd a gynhaliwyd yn Swyddfa'r Dociau nôl yn 2017 a dwedodd ei bod yn drueni nad oedd hyn wedi'i ailadrodd. Dwedodd hefyd fod y Barri yn "amlganolog" gyda nifer o ardaloedd annhebyg, felly'r allwedd oedd alinio'r rhain gyda'i gilydd. Soniodd hefyd am ddatblygiad Cyfnewidfa Dociau'r Barri, gan ddweud ei bod yn ymddangos bod y ffocws yn fwy ar gael pobl i Gaerdydd yn hytrach nag annog mwy o bobl i ymweld â'r Barri.

Mewn ymateb i sylwadau'r Cynghorydd Dr Johnson, cytunodd y Pennaeth Adfywio a Chynllunio â'r pwyntiau a godwyd. O ran y Gyfnewidfa, roedd ffocws hyn wedi newid i gael pobl i mewn i'r Barri yn ogystal â chael gwell cysylltiadau â rhannau allanol y Dref yn ogystal â gwella trafnidiaeth gyhoeddus. O ran cyllid, byddai cais yn cael ei wneud i Gronfa Codi’r gwastad Llywodraeth y DU a’r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn y dyfodol (disgwyl Papur Gwyn fis Ionawr 2022) yn ogystal â'r cyllid sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru. Yn ogystal, roedd ymgynghorwyr (Rothwell) wedi'u cyflogi'n ddiweddar i ddatblygu'r Uwch Gynllun ar gyfer y Barri ymhellach.

Gwnaeth y Cynghorydd Wilson sylw ynglŷn â Ffordd Y Mileniwm yn y Barri, yr ystyriai fod angen ei had-drefnu gan ei fod yn gweld y rhan hon o'r Barri yn ganolfan strategol newydd o ganlyniad i'r datblygiadau newydd yn yr ardal. Cyfeiriodd hefyd at Benarth, ac un agwedd na soniwyd amdani yn yr adroddiad oedd landlordiaid preifat. Holodd pa ymgysylltu oedd yn digwydd gyda landlordiaid. Dwedodd y Cynghorydd Wilson hefyd fod angen i'r Cyngor feddwl yn fwy strategol a chyfannol wrth ystyried adfywio canol trefi.

Wrth ymateb i'r Cynghorydd Wilson, dwedodd y Pennaeth Adfywio a Chynllunio fod Ffordd Y Mileniwm yn rhan o adfywiad gwreiddiol y glannau yn dyddio'n ôl i'r 2000au, felly roedd angen ei ystyried. Ychwanegodd bod cydnabyddiaeth yn yr Adroddiad, na allai Canol Trefi aros mwyach fel ag yr oeddynt gan eu bod fel ardaloedd manwerthu yn bennaf, felly byddent yn dod yn ardaloedd â mwy o ddefnydd cymysg. Roedd y Stryd Fawr yn y Barri eisoes wedi mynd drwy newid sylweddol dros y blynyddoedd gyda masnachwyr mwy annibynnol yn lleoli yno. Roedd newidiadau tebyg yn cael eu gweld yn Heol Holltwn, ond dim ond yn fwy diweddar.

Yna cyfeiriodd y Pennaeth Adfywio a Chynllunio at ddatblygiadau yng Nglannau'r Barri, a oedd yn llwyddiant, ond roedd angen i'r Cyngor fod yn ofalus nad oedd yn effeithio ar ardaloedd eraill y Barri. Felly, roedd y Cyngor yn ceisio datblygu cysylltiadau cynaliadwy rhwng pob ardal.

O ran landlordiaid, dwedodd y Pennaeth Adfywio a Chynllunio mai prif ffocws yr Adroddiad oedd polisi Llywodraeth Cymru a pha mor llwyddiannus oedd hynny. Roedd Cyngor Bro Morgannwg yn gweithio gyda landlordiaid i geisio sicrhau nad

oedd eiddo'n wag yn y tymor hir a bod gan y Cyngor gofnod o eiddo felly roedd yn ymwybodol lle roedd angen gweithredu. Pe na bai landlordiaid yn gydweithredol, yna roedd pwerau y gallai'r Cyngor eu dwyn ger bron.

Cyfeiriodd Mr P. Lewis at barcio ceir, gan ddweud bod gan y Bont-faen gyfleusterau parcio rhagorol, a oedd meddai, yn wahanol i Benarth a oedd yn annigonol. Ychwanegodd fod llwyddiant canolfannau siopa y tu allan i'r dref yn deillio o gyfleustra a rhwyddineb parcio. Mewn ymateb, dwedodd y Pennaeth Adfywio a Chynllunio ei bod yn bwysig cydnabod bod gan Benarth un o'r cyfraddau isaf o eiddo gwag. Ychwanegodd fod gan y Cyngor Strategaeth Parcio Ceir a oedd yn gysylltiedig ag adfywio felly roedd cydnabyddiaeth o bwysigrwydd gwneud ymweld mor hawdd â phosibl.

Holodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Carroll, am effaith Argymhelliad 3 – ac ail-gydbwyso buddsoddiad o gyfalaf i refeniw er mwyn helpu awdurdodau lleol i fynd i'r afael â phrinder capasiti a sgiliau staff. Holodd y Cadeirydd sut y byddai hyn yn effeithio ar y Cyngor. Mewn ymateb, dwedodd y Pennaeth Adfywio a Chynllunio fod angen canran o unrhyw ffrwd refeniw ar gyfer staff a chostau gweinyddu. Bu problemau yn y gorffennol gyda rhai ffrydiau ariannu nad oedd elfen refeniw ganddynt a oedd yn rhoi cymorth ariannol i'r Cyngor reoli a chyflawni prosiect.

Gan nad oedd unrhyw sylwadau pellach, fe

PENDERFYNWYD –

(1) CYMERADWYO’r canfyddiadau allweddol oedd yn deillio o adolygiad Archwilio Cymru o Adfywio Canol Trefi (Atodiad A) ac ymateb y Cyngor i’r adolygiad ac argymhellion Archwilio Cymru (Atodiad B).

(2) CYFEIRIO’r adroddiad hwn at y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac yna at y Cabinet i gymeradwyo'r camau gweithredu arfaethedig i fynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella.

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) O ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Sicrhau bod y Cyngor yn ymateb yn briodol i adolygiadau lleol a chenedlaethol ac yn gweithredu meysydd i'w gwella fel y nodwyd gan Archwilio Cymru.

648 ARCHWILIAD TREFNIADAU DIOGELU RHAG COLLI RHYDDID (CYF)

Cyflwynwyd yr eitem gan Bwyllgor Craffu Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol o’r 9fed Dachwedd, 2021.

Nododd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol fod materion yn ymwneud â'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (TDAOR/DoLS) wedi eu hadrodd

i'r Pwyllgor hwn ar sawl achlysur blaenorol. Dwedodd fod y Cyngor wedi gwneud cynnydd sylweddol a bod yr ôlgroniad o asesiadau wedi'i leihau.

Dwedodd y Cyfarwyddwr y rhagwelwyd y byddai'r fframwaith Trefniadau Amddiffyn Rhyddid (TARh/*LPS*) newydd yn cael ei weithredu ym mis Ebrill 2022. Roedd y Pwyllgor Craffu Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol wedi anfon llythyr at Lywodraeth Cymru yn gofyn am dderbyn Codau Ymarfer y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid mewn da bryd. Dwedodd y Cyfarwyddwr fod Llywodraeth Cymru, ers y llythyr, wedi nodi nad oedd yn ymarferol i'r Codau Ymarfer gael eu cyhoeddi erbyn mis Ebrill 2022, felly roedd trafodaethau'n mynd rhag blaen gyda Llywodraeth y DU. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr fod y broses bresennol yn ymddangos yn feichus gyda llawer o asesiadau unigol yn ofynnol gan wahanol weithwyr proffesiynol. Gobeithiai y byddai hyn yn cael ei leihau.

Gofynnodd y Cynghorydd Dr Johnson pa sicrwydd y gellid ei ddarparu bod ansawdd yr asesiad yr un fath drwy ddulliau rhithwir o'i gymharu â chyfarfodydd wyneb yn wyneb. Mewn ymateb, dwedodd y Cyfarwyddwr y gellid rhoi rhywfaint o sicrwydd oherwydd pe bai angen asesiad wyneb yn wyneb, yna byddai modd cynnal un felly. Dwedodd y Cyfarwyddwr fod mwy o arian wedi arwain at gynnydd yn adnoddau'r staff, ac roedd hyn wedi cryfhau sefyllfa'r Cyngor, gyda phob unigolyn a oedd ag angen cael ei weld yn cael ei weld. O ran y Gofrestr Risg, dwedodd y Cyfarwyddwr fod y sefyllfa bresennol yn gyfeiriad teithio gwell gyda'r statws risg yn lleihau.

Wedi hynny

PENDERFYNWYD - nodi cynnwys yr adroddiad.

<u>Y rheswm dros y penderfyniad</u>

Rhoi ystyriaeth i gynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

649 ARCHWILIO CYMRU – ASESIAD CYNALIADWYEDD ARIANNOL CYNGOR BRO MORGANNWG 2021 (CYF) –

Cyflwynwyd yr eitem o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd, 2021.

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro/Swyddog Adran 151 yr adroddiad, a ddaeth i'r casgliad bod Cyngor Bro Morgannwg mewn sefyllfa dda i gynnal ei gadernid ariannol gyda lefel iach o gronfeydd wrth gefn a chynlluniau cynaliadwy i'w defnyddio.

Dyma ganfyddiadau allweddol yr asesiad:

- Roedd effaith uniongyrchol COVID-19 ar gynaliadwyedd ariannol y Cyngor wedi'i liniaru gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

- Roedd y Cyngor mewn sefyllfa ariannol iach ac roedd ganddo ymagwedd ariannol cynaliadwy dros y tymor canolig, gyda defnydd wedi'i gynllunio o gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi.
- Roedd gan y Cyngor lefel iach o gronfeydd wrth gefn ac roedd ei gynlluniau i'w defnyddio yn gynaliadwy ar y cyfan er gwaethaf rhywfaint o ddefnydd nas cynlluniwyd yn 2020-21.
- Roedd gan y Cyngor hanes o sicrhau gwarged a throsglwyddo arian i'w gronfeydd wrth gefn, tan 2020-21 pan arweiniodd gorwariant gwasanaethau at ddefnydd bach heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn.
- Cymysg oedd hanes y Cyngor o nodi a chyflawni arbedion i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol.
- Roedd gan y Cyngor sefyllfa hylifedd gref (ymhlith y ddau awdurdod lleol uchaf yng Nghymru) sy'n golygu y gallai gyflawni ei rwymedigaethau ariannol wrth iddynt ddod yn ddyledus i’w had-dalu.

Nododd yr adroddiad un Cynnig ar gyfer Gwella:

- PFI 1: O ystyried y bylchau ariannu a ragwelir yn 2022-23 a 2023-24, mae angen i'r Cyngor benderfynu sut y bydd yn llenwi'r bylchau hynny, gan gynnwys i ba raddau y byddai arbedion yn cyfrannu at hynny.

Mewn ymateb i'r canfyddiadau, nododd yr adroddiad y byddai'r bwlch ariannu parhaus yn cael ei ystyried fel rhan o'r broses o bennu cyllidebau ar gyfer 2022/2023 a byddai'r cam hwn yn cael ei ymgorffori yn y traciwr Insight a’i ddatblygu gan y Cyngor. Byddai'r cynnydd hefyd yn cael ei fonitro gan Archwilio Cymru fel rhan o raglen waith archwilio flynyddol y Cyngor.

Yn fwy diweddar, ym mis Medi 2021, roedd Archwilio Cymru wedi cyhoeddi adroddiad cryno cenedlaethol pellach, Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol: Covid-19 Effaith, Adferiad a Heriau'r Dyfodol. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at themâu a chanfyddiadau allweddol o'r gwaith cynaliadwyedd ariannol a wnaed yn ystod 2020-21 ar draws pob un o'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru gyda rhai myfyrdodau ar sut y gellid cryfhau cynaliadwyedd ariannol Cynghorau yn y dyfodol.

Wedi ystyried yr adroddiad,

PENDERFYNWYD –

(1) NODI cynnwys yr adroddiadau cynaliadwyedd ariannol cenedlaethol a lleol gan gynnwys y canfyddiadau allweddol sy’n deillio o asesiad Archwilio Cymru o gynaliadwyedd ariannol Bro Morgannwg (Atodiad A i'r adroddiad) ac ymateb y Cyngor i ganfyddiadau'r asesiad a Chynnig Archwilio Cymru ar gyfer Gwella.

(2) CYFEIRIO’r adroddiadau at y Cabinet i ystyried a chymeradwyo'r camau gweithredu arfaethedig i fynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Ystyried gwaith craffu ac adolygu'r Pwyllgor ar ganfyddiadau asesiad Archwilio Cymru o gynaliadwyedd ariannol Cyngor Bro Morgannwg a heriau cynaliadwyedd ariannol llywodraeth leol yn y dyfodol.

(2) Sicrhau bod y Cyngor yn ymateb yn briodol ac yn gweithredu meysydd i'w gwella fel y nodwyd gan Archwilio Cymru.

650 DIWEDDARIAD CHWARTER 2 Y GOFRESTR RISG GORFFORAETHOL (RG) -

Diben yr adroddiad oedd rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar sefyllfa Chwarter 2 y Risgiau Corfforaethol ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2021 a mis Medi 2021, a gynhwysir yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol fel yr amlinellir yn yr Adroddiad Cryno ar Risgiau Corfforaethol.

Rhoddodd yr adroddiad drosolwg i'r Aelodau o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol ar gyfer Chwarter 2 (Ebrill 2021-Medi 2021). Ymgorfforwyd dadansoddiad risg yn yr Adroddiad Cryno ar Risgiau Corfforaethol (Atodiad A yr adroddiad). Roedd hyn yn galluogi'r swyddogion a'r Aelodau i nodi ac asesu tueddiadau a natur drawsbynciol risgiau gyda'r gallu i archwilio'n fanwl fanylion risgiau yn ôl yr angen.

Gofynnodd y Pennaeth Polisi a Thrawsnewid Busnes i'r Aelodau ystyried ychwanegu dau risg newydd i'r Gofrestr. Roedd y ddau yn ymwneud â maes Gofal Cymdeithasol, felly gwahoddwyd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol i roi crynodeb.

Dwedodd y Cyfarwyddwr mai'r risg ychwanegol gyntaf, oedd breuder y farchnad o fewn y sectorau Cartrefi Gofal a Darparwyr Gofal. Roedd hyn yn ymwneud â digonolrwydd staffio, a oedd wedi golygu gostyngiad yn nifer y gwelyau gofal a'r pecynnau gofal cartref sydd ar gael. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr fod Cartrefi Gofal dan bwysau i recriwtio a chadw staff a oedd wedi golygu bod llai o welyau. At hynny, roedd rhai Cartrefi Gofal wedi cau'n ddiweddar, felly roedd yn dda bod gan y Cyngor bresenoldeb o hyd gyda'r sector Cartrefi Gofal a roddodd ryw elfen o reolaeth y mynegodd y Cyfarwyddwr nad oedd am iddo gael ei cholli.

Yn ogystal, her allweddol arall i Ddarparwyr Gofal oedd y gallu i sicrhau yswiriant, a oedd yn mynd yn anos. Roedd hyn yn ymwneud â phob un o'r tri math o yswiriant – atebolrwydd cyhoeddus, yswiriant adeilad a chynnwys. Cytunodd y Pwyllgor y dylid darparu rhagor o wybodaeth am y materion yswiriant.

Roedd yr ail risg ychwanegol yn ymwneud â rheoli galw a chapasiti gwasanaeth. Dwedodd y Cyfarwyddwr fod hyn yn ymwneud â diwallu anghenion poblogaeth sy'n heneiddio a chynnydd yn nifer y bobl hŷn sydd angen cymorth a hefyd nifer y pecynnau gofal cymhleth i blant.

Cytunodd y Pwyllgor i ychwanegu'r ddau risg ychwanegol at y Gofrestr.

PENDERFYNWYD –

(1) Nodi sefyllfa Chwarter 2 risgiau corfforaethol ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2021 a mis Medi 2021 fel yr amlinellir yn Atodiad A.

(2) Y gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo cynnwys dau risg Gorfforaethol newydd ar y Gofrestr (Risg Breuder y Farchnad a Rheoli Galw a Risg Capasiti Gwasanaeth) fel yr amlinellir yn Atodiad A.

(3) BOD sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael eu hystyried gan y Cabinet yn y cyfarfod pan fydd y Cabinet yn ystyried adroddiad ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol ar gyfer chwarter 2.

(4) Y dylai'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gael rhagor o wybodaeth am y materion yswiriant sy'n wynebu Cartrefi Gofal a Darparwyr Gofal.

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Bod yn ystyriol o adroddiad diweddaru Cofrestr Risg Chwarter 2 a thrafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Nodi sefyllfa chwarter 2 risgiau corfforaethol ar draws y Cyngor ynghyd â'r camau i'w cymryd i fynd i'r afael â'r risgiau hyn yn ogystal â thynnu sylw at y risgiau sy'n dod i'r amlwg y dylid eu cynnwys ar y Gofrestr fel yr amlinellir yn Atodiad A.

(3) Ar y cais i sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gael eu hystyried pan gyflwynir sefyllfa Chwarter 2 y Gofrestr Risg i'r Cabinet.

(4) Darparu gwybodaeth fanylach am y materion yswiriant sy'n wynebu Cartrefi Gofal a Darparwyr Gofal.

651 STRATEGAETH A FFRAMWAITH GWRTH-DWYLL DRAFFT 2021 I 2024 (PGAR) –

Rhoddodd yr adroddiad Strategaeth a Fframwaith Gwrth-dwyll drafft y Cyngor 2021 - 2024 i'r Aelodau i'w ystyried cyn ei gyflwyno i'r Cabinet i'w gymeradwyo.

Un o swyddogaethau craidd Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio effeithiol oedd ystyried effeithiolrwydd trefniadau rheoli risg y Cyngor, yr amgylchedd rheoli a pholisiau gwrth-dwyll a llygredd cysylltiedig.

Roedd Strategaeth a fframwaith Gwrth-dwyll y Cyngor yn rhan annatod o hynny ac felly yn Atodiad A i'r adroddiad caed y Strategaeth a Fframwaith Gwrth-dwyll 2021 - 24 wedi'i diweddaru, a oedd hefyd yn ystyried canfyddiadau adroddiad 'Codi Ein Gêm – Mynd i'r Afael â Thwyll yng Nghymru'.

Roedd y Strategaeth a Fframwaith Gwrth-dwyll 2021 - 2024 yn amlinellu nodau ac amcanion y strategaeth, yn nodi risgiau twyll ac roedd yn cynnwys cynllun

gweithredu 3 blynedd a fyddai'n gwella gallu'r Cyngor ymhellach i wrthsefyll twyll, llwgrwobrwyo a llygredd. Roedd yr adroddiad yn cynnwys mesurau llwyddiant a siart llif i ddangos ymagwedd y Cyngor at dwyll tybiedig.

Yn dilyn y strategaeth hon, byddai polisïau allweddol fel y Polisi Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredigaeth, y Polisi Atal Gwyngalchu Arian a'r polisi Atal Efadu Trethi yn cael eu diweddaru a fyddai'n llywio'r ymrwymiad i ddatblygu diwylliant o onestrwydd, uniondeb a gwrthwynebiad i dwyll, llygredd a llwgrwobrwyo.

Roedd disgwyl i linell Speakout gael ei lansio ganol mis Rhagfyr y gellid ei defnyddio dros y ffôn, drwy e-bost neu Staffnet er mwyn helpu i adrodd am dwyll posibl.

Holodd y Cynghorydd Wilson a oedd ffyrdd o leihau amlder y twyll Bathodyn Glas. Mewn ymateb, dwedodd Dirprwy Bennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol fod trafodaeth am y broses yn cael ei chynnal gyda'r Adran berthnasol. Ychwanegodd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol fod trafodaeth beth amser yn ôl am fod Bathodynnau Glas yn gyfrifoldeb i gorff cenedlaethol ond nad oedd hyn wedi'i ddatblygu. Y ffactor pwysig oedd sicrhau bod cofnodion cwsmeriaid yn cael eu diweddaru. Roedd Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr eisoes wedi gwneud gwaith adnabod twyll cyn COVID-19 gan ddefnyddio swyddogion o Gyngor arall a oedd ag arbenigedd yn y maes hwn. Efallai bod hyn yn rhywbeth i Gyngor y Fro ei ystyried yn y dyfodol.

Wedi hynny

PENDERFYNWYD –

(1) Nodi'r Strategaeth a'r Fframwaith Atal Twyll drafft 2021 i 2024.

(2) Y dylai'r Strategaeth a'r Fframwaith Atal Twyll drafft 2021 i 2024 gael eu cyfeirio at y Cabinet i'w hystyried.

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Y dylai'r Strategaeth a'r Fframwaith Atal Twyll drafft 2021 i 2024 gael eu hystyried gan y Cabinet.

652 CYNNYDD YN ERBYN CYNLLUN SEILIEDIG RISG ARCHWILIO MEWNOL 2021-22 (PGAR) -

Diben yr adroddiad oedd rhoi datganiad sefyllfa i'r Aelodau ar y cynnydd sy'n cael ei wneud yn erbyn y gwaith archwilio a gynhwyswyd ac a gymeradwywyd yn y Cynllun ar Sail Risg Archwilio Mewnol 2021-22.

Manylwyd ar y cynnydd a wnaed yn erbyn y cynllun a gymeradwywyd ar sail risg archwilio mewnol 2021-22 yn Atodiad A i'r adroddiad. Dangosodd fod 22 o

adolygiadau wedi'u cwblhau, 17 gyda barn archwilio tra bod 4 adroddiad wedi'u cyhoeddi ar ffurf drafft a bod 13 yn dal i fynd rhagddynt.

Yn seiliedig ar asesiad o gryfderau a gwendidau'r meysydd a archwiliwyd drwy brofi effeithiolrwydd amgylchedd rheoli mewnol yr 16 archwiliad a gwblhawyd hyd yma, rhoddwyd barn archwilio o sicrwydd sylweddol i 2 archwiliad a gwblhawyd, barn o sicrwydd rhesymol i 10 archwiliad a gwblhawyd tra bod 4 archwiliad wedi arwain at farn archwilio o sicrwydd cyfyngedig.

Roedd 75 o argymhellion wedi’u gwneud i gryfhau'r amgylchedd rheoli; roedd 3 wedi'u categoreiddio’n flaenoriaeth uchel, 34 yn flaenoriaeth ganolig a 38 yn flaenoriaeth isel. Byddai'r holl argymhellion yn cael eu monitro i sicrhau y byddent yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

Wedi hynny

PENDERFYNWYD - Nodi cynnwys yr adroddiad.

<u>Y rheswm dros y penderfyniad</u>

Rhoi ystyriaeth i gynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

653 BLAENRAGLEN WAITH WEDI'I DIWEDDARU (PGAR) -

Diben yr adroddiad oedd rhoi Blaenraglen Waith wedi'i Diweddaru i'r Aelodau ar gyfer 2021/22.

Er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio i sicrhau bod y Pwyllgor wedi rhoi ystyriaeth briodol i bob agwedd ar eu swyddogaethau craidd, roedd y Flaenraglen Waith a atodir i'r adroddiad hwn yn Atodiad A wedi'i chynhyrchu ac yn cyd-fynd â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor.

Byddai'r Flaenraglen Waith yn cael ei diweddaru i adlewyrchu'r newidiadau sydd eu hangen i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor dan y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau newydd.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor nodi'r Flaenraglen Waith a nodi a oedd angen unrhyw wybodaeth ychwanegol.

Yna

PENDERFYNWYD -

(1) Nodi’r Flaenraglen Waith.

(2) Cymeradwyo’r rhestr o eitemau ar gyfer y cyfarfod nesaf, 1 Mawrth 2022.

No.

Y rheswm dros y penderfyniadau

(1&2) Sicrhau bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ymwybodol o gynnydd y rhaglen waith arfaethedig ac yn cael gwybod amdano.